

NATIONAL SOCIETIES AWARDS 2019

MANCHESTER

Gwobrau Cenedlaethol Y Cymdeithasau 2019
Manceinion

MEINI PRAWF Y BEIRNIAID

Dylai pob enwebiad gynnwys
dim mwy na 500 o eiriau

CYMDEITHAS ORAU

Rhoddir y wobr hon i'r gymdeithas a ystyrir y gorau o blith yr holl categorïau ac undebau myfyrwyr yn y Deyrnas Unedig.

- + Mae hi wedi diwallu anghenion ei haelodau ac wedi gwella eu profiad yn gadarnhaol
- + Mae hi'n drefnus ac wedi rheoli ei chyllid yn broffesiynol gydol y flwyddyn academiaidd
- + Mae hi wedi bod yn arloesol yn y modd y mae'n gweithio gyda'i haelodau ac wedi ceisio amrywiaethu ei haelodaeth
- + Mae gweithgareddau'r gymdeithas wedi rhoi grym i'w haelodau i wella eu cymuned yn y Brifysgol, y gymdeithas leol, yr amgylchedd neu mae hi wedi cael effaith sylweddol arall
- + Mae hi wedi gwneud defnydd ardderchog o fentrau ac adnoddau'r Undeb
- + Mae hi wedi darparu tystiolaeth o gynlluniau trosglwyddo da i'w hollynwyr i sicrhau cynladwyedd y gymdeithas
- + Mae hi wedi cydweithio â grwpiau myfyrwyr eraill
- + Mae hi wedi datblygu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i bob myfyriwr
- + Mae hi wedi cael ei chydabod eisoes gan ei hundeb myfyrwyr, ei choleg, ei phrifysgol neu gorff allanol arall (er enghraifft enwebiad ar gyfer gwobr undeb y myfyrwyr, gan gyrraedd haen/lefel uchel ar gyfer eu datblygiad, cael cymeradwyaeth swyddog sabothol, ennill gwobr arall UCM)

CYMDEITHAS ACADEMAIDD ORAU

Rhoddir y wobr hon i'r Gymdeithas sydd wedi gwella profiad academiaidd ei haelodau. Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys cymdeithasau sy'n canolbwyntio ar roi cymorth i fyfyrwyr gyda'u hastudiaethau trwy drefnu darlithoedd gwadd, neu wella eu cyflogadwyedd trwy wahodd darpar gyflogwyr i ddigwyddiadau rhwydweithio gyda myfyrwyr.

- + Mae hi wedi mynd y filltir ychwanegol i sicrhau bod ei haelodau'n teimlo'n gartrefol ar eu cwrs
- + Mae hi wedi denu aelodau o wahanol fathau o astudiaethau lle bo modd
- + Mae hi wedi trefnu amryw ddigwyddiadau sy'n ategu'r maes astudio y mae'r gymdeithas yn gysylltiedig â hi
- + Mae hi wedi gwella cyflogadwyedd ei haelodau
- + Mae ganddi gysylltiadau cyfathrebu da gyda'i hadran/ysgol/prifysgol/coleg
- + Mae hi wedi gweithio gyda phartneriaid allanol sy'n berthnasol yn academiaidd

CYMDEITHAS GELFYDDYD ORAU

Rhoddir y wobr hon i'r Gymdeithas sydd fwyaf llwyddiannus yn annog cyfranogi neu berfformio yn y celfyddydau. Mae grwpiau hamdden, perfformio a chystadleuol yn gymwys i'w hennill.

- + Mae hi wedi trefnu amryw ddigwyddiadau creadigol ac arloesol
- + Mae hi wedi gweithio'n galed i annog ei haelodau i gyfranogi neu safon uchel o gyrhaeddiad
- + Mae hi'n cyfrannu'n gadarnhaol i'r celfyddydau trwy arddangos doniau
- + Mae hi wedi rhoi cyfleoedd i'w haelodau wella eu doniau a'u sgiliau trwy weithio gydag eraill

CYMDEITHAS GODI ARIAN/YMGYRCHU ORAU

Rhoddir y wobr hon i'r Gymdeithas sydd wedi gwneud y cyfraniad gorau iYmgyrch, Prosiect neu Fenter, neu waith elusennol, gan wneud effaith gadarnhaol yn ei sefydliad, yn ei chymuned leol neu'r tu hwnt.

- + Mae hi wedi trefnu amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llwyddiannus
- + Mae hi wedi gweithio'n galed i sicrhau mwy o ymwybyddiaeth neu ymgysylltu â'i hachos
- + Mae hi wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar benderfynwyr lleol
- + Mae hi'n cael ei harwain gan fyfyrwyr a'i gweithredu gan y Gymdeithas eu hun
- + Mae hi wedi cael effaith fesuradwy ar grwpiau penodol o bobl
- + Mae hi wedi gwneud cyfraniad pendant a mesuradwy trwy ei gwaith
- + Mae hi wedi cefnogi gwaith elusennau neu faterion lleol neu genedlaethol
- + Mae hi wedi ysbrydoli myfyrwyr eraill i gymryd rhan yn ei hachos

CYMDEITHAS DDIWYLLIANNOL A FFYDD ORAU

Rhoddir y wobr hon i'r Gymdeithas sydd fwyaf llwyddiannus yn dathlu diwylliant neu ffydd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys grwpiau ffydd neu unrhyw grŵp sy'n dathlu diwylliant.

- + Mae hi wedi mynd y filltir ychwanegol i sicrhau bod ei haelodau'n teimlo'n gartrefol yn eu sefydliad
- + Mae hi wedi trefnu amryw ddigwyddiadau a helpodd i addysgu neu godi ymwybyddiaeth o'i dewis ffydd neu ddiwylliant yn ei sefydliad
- + Mae hi wedi cefnogi'r rheiny sy'n perthyn i'w diwylliant neu sy'n arddel yr un ffydd yn eu sefydliad
- + Mae hi wedi cynnu sgwrs gadarnhaol ryngddiwylliannol/ rhyng-ffydd yn eu sefydliad
- + Mae hi wedi ymgysylltu'n gadarnhaol â grwpiau cymunedol sy'n cyd-fynd â'u dewis ffydd neu ddiwylliant

GWOBR AB

Rhoddir hon i'r Gymdeithas, Gweithred Gymdeithasol, Ymgyrch, Gweithgaredd Gwirfoddoli neu Ddigwyddiad gorau mewn sefydliad Addysg Bellach.

- + Mae hi wedi diwallu anghenion ei haelodau ac wedi gwella eu profiad yn gadarnhaol
- + Mae hi wedi bod yn arloesol yn y modd y mae wedi ymgysylltu â'i haelodau
- + Mae hi'n cael ei harwain gan fyfyrwyr
- + Mae ei gweithgareddau wedi rhoi'r grym i'w haelodau naill ai i gyflawni mwy fel unigolyn neu i wella eu cymuned yn y Brifysgol
- + Mae hi wedi gwneud defnydd ardderchog o fentrau ac adnoddau'r Undeb
- + Mae hi wedi gweithio'n galed i sicrhau mwy o ymwybyddiaeth neu ymgysylltu â'i hachos
- + Mae'r gweithgaredd wedi datblygu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar i bob myfyriwr
- + Roedd y gweithgaredd yn arloesol ac yn unigryw
- + Cafodd ei gynllunio, ei hysbysebu a'i weithredu'n dda gan ystyried

goblygiadau diogelwch

- + Rhoddodd y gweithgaredd ysbrydoliaeth i fyfyrwyr eraill arwain eu gweithgaredd eu hunain

CYMDEITHAS HOBI A DIDDORDEB ORAU

Rhoddir y wobr hon i'r Gymdeithas sydd wedi cynrychioli orau ei hobi neu ddiddordeb i fyfyrwyr yn ei sefydliad neu ledled y wlad. Mae'n cynnwys grwpiau cystadleuol a hamddenol.

- + Mae hi wedi trefnu amryw ddigwyddiadau
- + Mae hi wedi gweithio'n galed i annog ei haelodau i gyfranogi neu safon uchel o gyrhaeddiad
- + Mae hi wedi hyrwyddo a dathlu'r rhinweddau unigryw mae eich Cymdeithas yn dod â nhw i'ch sefydliad
- + Mae hi wedi cynnal gweithgareddau oedd yn briodol i wahanol lefelau o ddiddordeb a sgiliau
- + Mae hi wedi dathlu'r diddordeb cyffredin sy'n uno aelodau'ch cymdeithas

CYMDEITHAS GYFRYNGAU ORAU

Rhoddir y wobr hon i'r Gymdeithas sydd wedi creu'r cyfryngau gorau dan arweiniad myfyrwyr yn gyson gydol y flwyddyn. Gall enghreifftiau o hyn gynnwys papur newydd, radio, cylchgronau, podlediadau a chyfryngau digidol eraill.

- + Lefel uchel o greadigrwydd ac arloesedd yn y cynnwys a gynhrychir
- + Mae hi wedi creu cynnwys apelgar sy'n ennyn sylw amrywiaeth eang o fyfyrwyr
- + Mae hi wedi cydweithio ar ei chynnwys gyda grwpiau cyfryngau eraill yn ei sefydliad
- + Mae hi wedi helpu i hybu bywyd myfyrwyr ar y campws trwy weithio gyda chymdeithasau eraill, clybiau chwaraeon ac Undeb y Myfyrwyr.
- + Mae hi wedi dangos gweledigaeth a strategaeth barhaus ar gyfer dyfodol y grŵp
- + Mae hi wedi buddsoddi amser mewn hyfforddi a datblygu sgiliau aelodau newydd ac aelodau presennol y gymdeithas

CYMDEITHAS NEWYDD ORAU

Mae'r wobr hon ar gyfer y Gymdeithas newydd orau yr ystyrir ei bod wedi mynd y filltir ychwanegol ers dod yn aelod (yn y 18 mis diwethaf).

- + Mae hi wedi cyflawni nodau'r gymdeithas yn gyfan gwbl
- + Mae hi wedi llwyddo i reoli ei chyllid yn broffesiynol gydol y flwyddyn academaidd
- + Mae gweithgareddau'r Gymdeithas wedi rhoi'r grym i'w haelodau naill ai i gyflawni mwy fel unigolyn neu greu effaith gadarnhaol ar eu cymuned yn y Brifysgol
- + Mae hi wedi gwneud defnydd ardderchog o fentrau ac adnoddau'r Undeb
- + Mae hi wedi canolbwyntio ar ddenu aelodau newydd a sicrhau hirhoedledd y gymdeithas
- + Mae hi wedi darparu tystiolaeth o gynllunio realistig ar gyfer nodau byrdymor a hirdymor
- + Mae hi wedi cynnal sawl digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o'r gymdeithas

DIGWYDDIAD GORAU GAN GYMDEITHAS

Rhoddir y wobr hon i'r Gymdeithas sydd wedi cynnal y digwyddiad gorau gan ateb y meini prawf isod. Gall enghreifftiau gynnwys teithiau, digwyddiadau ar y campws, a digwyddiadau allanol/cymunedol.

- + Cafodd ei arwain gan fyfyrwyr a'i gynnal gan y Gymdeithas eu hun
- + Cafodd ei gyllid ei gynllunio'n dda
- + Bodlonodd o leiaf un nod y Gymdeithas
- + Llwyddodd i ennyn diddordeb aelodau'r gymdeithas a phobl nad ydynt yn aelodau a bu'n agored ac yn hygyrch i bawb
- + Bu'r digwyddiad yn arloesol ac yn unigryw
- + Cafodd ei gynllunio, ei hysbysebu a'i weithredu'n dda gan ystyried goblygiadau diogelwch
- + Rhoddodd y digwyddiad ysbrydoliaeth i grwpiau eraill o fyfyrwyr arwain eu digwyddiadau(au) eu hunain

GWOBR UNIGOL AM GYFRANIAD EITHRIADOL

Mae'r wobwr hon ar gyfer aelod o'r pwyllgor sydd wedi mynd y filltir ychwanegol gydol y flwyddyn wrth gyflawni ei rôl yn ei Gymdeithas i helpu i weithredu'r gymdeithas yn ddi-drafferth a sicrhau ei bod yn parhau i lwyddo.

- + Mae wedi sbarduno newid neu gyrhaeddiad sylweddol yn y Gymdeithas
- + Mae wedi bod yn llysgennad cadarnhaol ac yn fodel rôl ar gyfer ei Gymdeithas
- + Mae wedi dangos ymrwymiad rhagorol i'w Gymdeithas
- + Mae wedi gweithio'n gadarnhaol gyda'i Undeb Myfyrwyr, aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Gymdeithas
- + Mae wedi gwneud ymdrech ymwybodol i sicrhau bod ei gymdeithas yn hygyrch ac yn groesawgar i bawb
- + Mae wedi ysbrydoli myfyrwyr eraill i ymgymryd â rôl ar bwyllgor cymdeithas yn y dyfodol
- + Rhaid bod yn fyfyrwr presennol neu'n raddedig diweddar

Y GYMDEITHAS SYDD WEDI GWELLA FWYAF

Rhoddir y wobwr hon i'r Gymdeithas yr ystyrir ei bod wedi gwella fwyaf dros y flwyddyn academaidd hon. Dylai'r Gymdeithas fod wedi cyflawni cymaint o'r ffactorau isod â phosib.

- + Mae gweithgareddau'r Gymdeithas gyfan wedi cynyddu'n sylweddol
- + Mae cyfleoedd ac ansawdd digwyddiadau'r Gymdeithas wedi gwella
- + Mae'n amlwg ei bod wedi gwella i gyflawni ei nodau ac amcanion
- + Mae hi'n rheoli ei chyllid yn well
- + Mae hi'n defnyddio adnoddau a mentrau'r Undeb yn well
- + Mae hi'n gallu dangos newid cadarnhaol yn y modd y mae hi wedi ymgysylltu â'i haelodau
- + Mae hi'n gallu dangos cynllun ar gyfer datblygu, gwella a chynnaladwyedd hirdymor